| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **16 HYDREF 2023** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn hyn, mae 83% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn gymysg mewn amgylchiadau heriol iawn, ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly mae'r adroddiad yma'n diweddaru'r Bwrdd.

## 2. Cronfeydd Ecwiti Byd-Eang

Sefydlwyd y cronfeydd yma yn Chwefror 2019 a gellir gweld eu perfformiad hyd at 30 Mehefin 2023 isod.

### <u>Cronfa Twf Byd-Eang</u>

Mae hwn yn gronfa Fyd-eang sydd yn cynnwys tri rheolwr sylfaenol gyda Link fel y rheolwr buddsoddi.

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 1.8 | 10.4 | 9.8 |
| Meincnod | 3.3 | 11.3 | 10.5 |
| **Gwarged enillion** | **-1.5** | **-0.9** | **-0.7** |

Mae gan reolwyr y gronfa hon arddulliau gwahanol, gyda Baillie Gifford yn canolbwyntio ar stociau twf, Pzena ar stociau gwerth a Veritas ar stociau o ansawdd. Fel rheol, disgwylir na fydd pob un o'r rheolwyr yn perfformio pob chwarter. Fodd bynnag, mae eu harddulliau gwahanol yn cynnig y posibilrwydd o fwy o sefydlogrwydd o ran enillion dros y tymor hwy ar lefel y gronfa gyfan.

Dychwelodd y Gronfa 1.8% mewn GBP dros y chwarter ond tanberfformiodd yn erbyn dychweliad y meincnod. Gwerth oedd y ffactor nodedig oedd yn tanberfformio gan gofnodi dychweliad negyddol ar gyfer y chwarter. Fe wnaeth Pzena danberfformio'r farchnad eang ond perfformiodd yn well na gwerth y mynegai. Fe wnaeth sectorau gwerth arferol gan gynnwys ynni, prif gynhyrchion a deunyddiau i gyd danberfformio'r farchnad. Er gwaethaf y rhwystrau ym mis Mawrth a achoswyd gan gwymp Banc Silicon Valley, dewis stociau mewn elfennau ariannol oedd yr elfen fwyaf cadarnhaol o unrhyw sector.

**Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang**

Mae hwn yn gronfa Fyd-eang a rhanbarthol gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi sydd yn cynnwys wyth rheolwr sylfaenol. Mae’r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Mehefin 2023:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 3.0 | 11.9 | 11.7 |
| Meincnod | 3.3 | 11.3 | 10.5 |
| **Gwarged enillion** | **-0.3** | **0.6** | **1.2** |

Mae’r gronfa yma wedi ei selio ar ddull cyfunol gyda nifer o steiliau gwahanol (megis gwerth a thwf) sydd yng nghyd- fynd gyda’i gilydd. Er na fydd pob un o'r rheolwyr yn perfformio'n dda dros chwarter penodol, disgwylir i'r dull amrywiol arwain at fwy o sefydlogrwydd o ran enillion dros gyfnodau hwy. Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif dros yr ail chwarter ond tanberfformiodd fymryn yn erbyn y meincnod ar sail gymharol. Stociau twf a chapiau mawr oedd y dulliau a berfformiodd orau, gan berfformio'n sylweddol well na'r mynegai.

## 3. Cronfeydd Incwm Sefydlog

Lansiodd y Bartneriaeth bum is- gronfa incwm sefydlog yng Ngorffennaf a Medi 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ers y cychwyn mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt. Yn ddiweddar, mae’r Gronfa wedi buddsoddi mewn un arall fel rhan o’r broses o symud i’r dyraniad asedau strategol newydd: Cronfa Credyd Byd- Eang a byddwn yn adrodd ar y gronfa yma yn yr adolygiad nesaf.

**Cronfa Gredyd Aml- ased**

Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae’r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Mehefin 2023:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 2.3 | 6.0 | 0.4 |
| Targed | 2.1 | 7.3 | 5.3 |
| **Gwarged enillion** | **0.2** | **-1.3** | **-4.9** |

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol mewn chwarter pan ail-grynhodd marchnadoedd ariannol. Yr arbenigwr benthyciadau, ICG oedd y rheolwr a berfformiodd orau. Yn gyffredinol fodd bynnag mae'r gronfa wedi tanberfformio'n sylweddol ers y cychwyn. Roedd anweddolrwydd y farchnad yn cael ei ysgogi i raddau helaeth gan y rhyfel parhaus yn yr Wcráin a chyfyngiadau Covid-19 yn Tsieina. Bu chwyddiant cyson uwch, wedi'i ysgogi gan brisiau olew a nwyddau uwch, prinder llafur ac amhariadau ar y gadwyn gyflenwi a synnodd buddsoddwyr. Y gobaith yw felly bydd y sefydlogrwydd yn y marchnadoedd ariannol yn parhau.

**Cronfa Enillion Bond Absoliwt**

Mae gan y gronfa bedwar rheolwr buddsoddi sylfaenol a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 30 Mehefin 2023:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 0.7 | 3.7 | 2.2 |
| Targed | 1.6 | 5.2 | 3.3 |
| **Gwarged enillion** | **-0.9** | **-1.5** | **-1.1** |

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol y chwarter hwn. Mae'r Gronfa wedi perfformio'n gymharol agos i'r targed ers ei sefydlu mewn cyfnod heriol iawn ac yn ddibynnol ar nifer o ffactorau'r farchnad.

## 4. Cronfa Marchnadoedd Datblygol

Mae gan y gronfa hon chwe rheolwr sylfaenol a Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Roedd y perfformiad hyd at 30 Mehefin 2023 fel a ganlyn:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | -2.3 | -0.5 | -7.7 |
| Meincnod | -1.5 | -1.3 | -6.8 |
| **Gwarged enillion** | **-0.8** | **0.8** | **-0.9** |

Bu i'r Gronfa danberfformio yn erbyn yr enillion meincnod negyddol. Roedd buddsoddiadau'r Gronfa yn gweddu i amgylchedd y farchnad, gan gynnwys stociau gwerth a momentwm. Fodd bynnag, mae gan y Gronfa yma arbennigwr Tseina a roedd perfformiad Tsieina yn negyddol y chwarter hwn, yn enwedig o fewn sectorau disgresiwn y defnyddwyr a deunyddiau yn y wlad.

## 5. Datblygiadau

### 5.1 Marchnadoedd Preifat

Mae'r gwaith marchnadoedd preifat yn datblygu yn dda gyda'r dyranwyr canlynol wedi ei penodi, gyda rhai cronfeydd yn weithredol ac eraill ar fin lawnsio:

***Dyled Preifat: Russell Investments***

***Isadeiledd caeedig: GCM Grosvenor***

***Isadeiledd penagored: Cronfa Isadeiledd Byd-eang CBRE, Cronfa Isadeiledd Byd-eang IFM ac Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy Octopws SCsp.***

***Ecwiti preifat: Schroders***

Mae'r trafodaethau yn parhau mewn perthynas â'r dosbarth ased eiddo ac bydd proses caffael yn lawnsio o fewn y flwyddyn nesaf.

### 5.2 Cronfa Ecwiti Cynaliadwy

Mae Cronfa Ecwiti Cynaliadwy wedi ei lawnsio yn Mehefin 2023, ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd buddsoddi £270 miliwn ynddo.

Mae'r is-gronfa fuddsoddi newydd yn cynnig:

i. Datrysiad yn seiliedig ar ofynion pwrpasol PPC

ii. Amlygiad amrywiol i reolwyr ecwiti cynaliadwy arbenigol ar gyfraddau uchel

iii. Defnyddio fframwaith "IPO" Russell Investments (Bwriad, Diben, Canlyniad) i sicrhau addasrwydd cynigion gwirioneddol gynaliadwy

iv. Aliniad i nodau cynaliadwyedd PPC gan gynnwys aliniad Sero Net a ffocws clir ar yr hinsawdd

v. Dull aml-sianel o ymgysylltu ac ymrwymiad i gyflwyno canlyniadau adrodd sy'n cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs)

vi. Yn cynnig hyblygrwydd i esblygu wrth i ofynion PPC newid, neu wrth i themâu cynaliadwy ddatblygu ymhellach. Gellir cyflawni hyn trwy Weithredu Portffolio Gwell Buddsoddiadau Russell (EPI)

Y rheolwyr o fewn y gronfa yw Sparinest, Mirova, Neuberger Berman, Wellington ac Artemis a bydd y gronfa yma yn cael ei fonitro yn yr adolygiad nesaf.

### 5.3 Dychweliad Blynyddol PPC 2022/23

Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru angen yn gyfreithiol cwblhau set lawn o gyfrifon ac adroddiad blynyddol yn yr un ffordd â'r Gronfa Bensiwn, y gofyniad ydi bod cyfrifon yn cael eu paratoi ar ffurf dychweliad blynyddol. Roedd costau'r bartneriaeth yn £1,264,000 (£1,078,000 yn 2021/22) ac yn cael ei rannu'n dryloyw ar draws yr 8 awdurdod cyfansoddol yn unol â'r gwaith a gyflawnwyd.

Mae'r adroddiad blynyddol a pholisïau a dogfennau PPC ar gael ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru: www.partneriaethpensiwncymru.org

### 5.4 Diweddariad Gweithredwr

Disgwylir i werthiant Link Fund Solutions i Waystone Management UK Ltd gael ei gwblhau ar 9 Hydref 2023.

Wrth i'r contract presennol ddod i ben yn 2024, mae'r broses o gaffael gweithredwr newydd wedi dechrau ac mae amserlen gaffael gynhwysfawr wedi'i chreu. Mae'r Gwahoddiad i Dendro yn cael ei gyhoeddi ganol mis Hydref 2023.

## 6. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.